Y Deugain Mlynedd Hyn; Gwaelodygarth; 27/9/87
(diolch am rodd o lyfrau newydd)

Mawr ddiolch i chi gyfeillion prin

Am nodi'r Deugain Mlynedd hyn,

Ac estyn i mi anrheg ysblennydd

I loywi tipyn ar fy ymennydd,

A thrwytho'r pechadur hwn yn y "pethe"

Rhag iddo roi i chi hen bregethe.

Perygl y sawl sy ar ei bensiwn

Yw cyfyngu bywyd i un deimensiwn

Edrych yn ôl a phentyrru clod

Ar ogoniannau sy wedi bod;

Bydd rhain yn help rhag y cyfryw ddianc

Ac yn gymorth mawr i fi gadw'n ifanc,

Cans mewn eglwys sy mor ifanc wyryfol

Mae hi bron yn bechod i fod yn hynafol;

Set fawr yn llawn o gryts a chrotesi

O ddiaconiaid yn ein hanwesu,

Mae Eirwyn, T. W. a fi ar fy llw

Yn methu â chadw i fyny â nhw,

A T. J. yn brwydro i gadw'n hoyw

Gyda'i grysau lliwgar a'i gap pigloyw;

Eto, diolch cywir i bob aelod

O eglwys Gynulleidfaol y Gwaelod

Am i chi beidio â bod yn brin

O gofio'r Deugain Mlynedd hyn;

Mae eich hynawsedd a'ch consyrn golau

Y bore 'ma yn siarad "cyfrolau".